

Sunday 2nd November 2025
+ The Feast of All Saints'

The collect of the day

Almighty God, you have knit together your elect in one communion and fellowship in the mystical body of your Son Christ our Lord : grant us grace so to follow your blessed saints in all virtuous and godly living that we may come to those inexpressible joys you have prepared for those who truly love you; through Jesus Christ your Son our Lord, to whom with you and the Holy Spirit, be the kingdom, the power and the glory, for ever and ever. AMEN

The reading from Daniel
(7.1-3, 15-18)

In the first year of King Belshazzar of Babylon, Daniel had a dream and visions of his head as he lay in bed. Then he wrote down the dream: I, Daniel, saw in my vision by night the four winds of heaven stirring up the great sea, and four great beasts came up out of the sea, different from one another.

As for me, Daniel, my spirit was troubled within me, and the visions of my head terrified me. I approached one of the attendants to ask him the truth concerning all this. So he said that he would disclose to me the interpretation of the matter: 'As for these four great beasts, four kings shall arise out of the earth. But the holy ones of the Most High shall receive the kingdom and possess the kingdom for ever — for ever and ever.'

The Psalm
(149)

Alleluia. O sing to the Lord a / new / song: sing his praise in the congre/gation / of the / faithful. Let Israel rejoice / in their / maker: let the children of Zion be / joyful / in their / king.

Let them praise his / name in the / dance: let them sing praise to / him with / timbrel and / lyre. For the Lord has pleasure / in his / people: and adorns the / poor / with sal/vation.

Let the faithful be / joyful in / glory: let them re/joyce / in their / ranks, With the praises of God / in their / mouths: and a / two-edged / sword • in their / hands;

To execute vengeance / on the / nations: and / punishment / on the / peoples; To bind their / kings in / chains: and their / nobles with / fetters of / iron; To execute on them the / judgement de/creed: such honour have all his faithful / servants. / Alle/luia.

The reading from Ephesians
(1.11-23)

In Christ we have also obtained an inheritance, having been destined according to the purpose of him who accomplishes all things according to his counsel and will, so that we, who were the first to set our hope on Christ, might live for the praise of his glory. In him you also, when you had heard the word of truth, the gospel of your salvation, and had believed in him, were marked with the seal of the promised Holy Spirit; this is the pledge of our inheritance towards redemption as God's own people, to the praise of his glory.

I have heard of your faith in the Lord Jesus and your love towards all the

saints, and for this reason I do not cease to give thanks for you as I remember you in my prayers. I pray that the God of our Lord Jesus Christ, the Father of glory, may give you a spirit of wisdom and revelation as you come to know him, so that, with the eyes of your heart enlightened, you may know what is the hope to which he has called you, what are the riches of his glorious inheritance among the saints, and what is the immeasurable greatness of his power for us who believe, according to the working of his great power.

God put this power to work in Christ when he raised him from the dead and seated him at his right hand in the heavenly places, far above all rule and authority and power and dominion, and above every name that is named, not only in this age but also in the age to come. And he has put all things under his feet and has made him the head over all things for the church, which is his body, the fullness of him who fills all in all.

The reading from the Gospel according to Saint Luke
(6.20-31)

Jesus looked up at his disciples and said: 'Blessed are you who are poor, for yours is the kingdom of God. 'Blessed are you who are hungry now, for you will be filled. 'Blessed are you who weep now, for you will laugh. 'Blessed are you when people hate you, and when they exclude you, revile you, and defame you on account of the Son of Man. Rejoice on that day and leap for joy, for surely your reward is great in heaven; for that is what their ancestors did to the prophets.

'But woe to you who are rich, for you have received your consolation. 'Woe to you who are full now, for you will be hungry. 'Woe to you who are laughing now, for you will mourn and weep. 'Woe to you when all speak well of you, for that is what their ancestors did to the false prophets.

'But I say to you that listen, Love your enemies, do good to those who hate you, bless those who curse you, pray for those who abuse you. If anyone strikes you on the cheek, offer the other also; and from anyone who takes away your coat do not withhold even your shirt. Give to everyone who begs from you; and if anyone takes away your goods, do not ask for them again. Do to others as you would have them do to you.'

The collect following communion

God, the source of all holiness and giver of all good things : may we who have shared at this table as strangers and pilgrims here on earth be welcomed with all your saints to the heavenly feast on the day of your kingdom; through Jesus Christ our Lord. AMEN



Colect y dydd

Hollalluog Dduw, cysylltaist ynghyd dy etholedigion yn un cymundeb a chymdeithas yn nirgel gorff dy Fab, Crist ein Harglwydd : caniatâ i ni ras i ddilyn dy saint gwynfydedig mewn buchedd rinweddol a duwiol fel y delom i'r llawenydd anhraethol hwnnw a baratoaist i'r rhai sy'n dy wir garu; trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant, yn oes oesoedd. AMEN

Darlleniad o Daniel

(7.1-3, 15-18)

Yn y flwyddyn gyntaf i Belsassar brenin Babilon, cafodd Daniel freuddwyd a gweledigaethau tra oedd yn gorwedd ar ei wely. Ysgrifennodd Daniel y freuddwyd, a dyma sylwedd yr hanes a adroddodd. Yn fy ngweledigaeth yn y nos gwelais bedwar gwynt y nefoedd yn corddi'r môr mawr, a phedwar bwystfil anferth yn codi o'r môr, pob un yn wahanol i'w gilydd.

Yr oeddwn i, Daniel, wedi fy nghynhyrfu'n fawr, a brawychwyd fi gan fy ngweledigaethau. Euthum at un o'r rhai oedd yn sefyll yn ymyl, a gofynnais iddo beth oedd ystyr hyn i gyd. Atebodd yntau a rhoi dehongliad o'r cyfan imi: "Pedwar brenin yn codi o'r ddaear yw'r pedwar bwystfil. Ond bydd saint y Goruchaf yn derbyn y frenhiniaeth ac yn ei meddiannu'n oes oesoedd."

Y Salm

(149)

Molwch yr Arglwydd. Canwch i'r ARGWLWYDD gân newydd, ei foliant yng

nghynulleidfa'r ffyddloniaid. Bydded i Israel lawenhau yn ei chreawdwr, ac i blant Seion orfoleddu yn eu brenin.

Molwch ei enw â dawn, canwch fawl iddo â thympan a thelyn. Oherwydd y mae'r Arglwydd yn ymhyfrydu yn ei bobl; y mae'n rhoi gwaredigaeth yn goron i'r gostyngedig.

Bydded i'r ffyddloniaid orfoleddu mewn gogoniant, a llawenhau ar eu clustogau. Bydded uchel-foliant Duw yn eu genau, a chleddyf daufiniog yn eu llaw

I weithredu dial ar y cenhedloedd a cherydd ar y bobloedd; i rwymo eu brenhinoedd mewn cadwynau, a'u pendefigion â gefynnau haearn; i weithredu'r farn a nodwyd ar eu cyfer. Ef yw gogoniant ei holl ffyddloniaid. Molwch yr Arglwydd.

Darlleniad o Effesiaid

(1.11-23)

Ynddo ef hefyd rhoddwyd i ni ran yn yr etifeddiaeth, yn rhinwedd ein rhagordeinio yn ôl arfaeth yr hwn sy'n gweithredu pob peth yn ôl ei fwriad a'i ewyllys ei hun. A thrwy hyn yr ydym ni, y rhai cyntaf i obeithio yng Nghrist, i ddwyn clod i'w ogoniant ef. A chwithau, wedi ichwi glywed gair y gwirionedd, Efengyl eich iachawdwriaeth, ac wedi ichwi gredu ynddo, gosodwyd arnoch yng Nghrist sêl yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd wedi ei addo. Yr Ysbryd hwn yw'r ernes o'n hetifeddiaeth, nes ein prynu'n rhydd i'w meddiannu'n llawn, er clod I ogoniant Duw.

Am hynny, o'r pryd y clywais am y ffydd sydd gennych yn yr Arglwydd Iesu, ac am eich cariad tuag at yr holl saint, nid wyf fi wedi peidio â diolch amdano, gan eich galw i gof yn fy

ngweddïau. A'm gweddi yw, ar i Dduw ein Harglwydd Iesu Grist, Tad y gogoniant, roi i chwi, yn eich adnabyddiaeth ohono ef, yr Ysbryd sy'n rhoi doethineb a datguddiad.

Bydded iddo oleuo llygaid eich deall, a'ch dwyn i wybod beth yw'r gobaith sy'n ymhyg yn ei alwad, beth yw cyfoeth y gogoniant sydd ar gael yn yr etifeddiaeth y mae'n ei rhoi i chwi ymhlith y saint, a beth yw aruthrol fawredd y gallu sydd ganddo o'n plaid ni sy'n credu, y grymster hwnnw a gyflawnodd yng ngrym ei nerth yng Nghrist pan gyfododd ef oddi wrth y meirw, a'i osod i eistedd ar ei ddeheulaw yn y nefolion leoedd, ymhell uwchlaw pob tywysogaeth ac awdurdod a gallu ac arglwyddiaeth, a phob teitl a geir, nid yn unig yn yr oes bresennol, ond hefyd yn yr oes sydd i ddod.

Darostyngodd Duw bob peth dan ei draed ef, a rhoddodd ef yn ben ar bob peth i'r eglwys; yr eglwys hon yw ei gorff ef, a chyflawniad yr hwn sy'n cael ei gyflawni ym mhob peth a thrwy bob peth.

Gwrandewch Efengyl Crist

yn ôl Sant Luc

(6.20-31)

Yna cododd ef ei lygaid ar ei ddisgyblion a dweud: "Gwyn eich byd chwi'r tlodion, oherwydd eiddoch chwi yw teyrnas Dduw. Gwyn eich byd chwi sydd yn awr yn newynog, oherwydd cewch eich digoni. Gwyn eich byd chwi sydd yn awr yn wylo, oherwydd cewch chwerthin. Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich casáu, yn eich ysgymuno a'ch gwaradwyddo, ac yn dirmygu eich enw fel peth drwg, o achos Mab y Dyn. Byddwch lawen y dydd hwnnw a llamwch o orfoledd, oherwydd,

ystyriwch, y mae eich gwobr yn fawr yn y nef. Oherwydd felly'n union y gwnaeth eu hynafiaid i'r proffwydi.

"Ond gwae chwi'r cyfoethogion, oherwydd yr ydych wedi cael eich diddanwch. Gwae chwi sydd yn awr wedi eich llenwi, oherwydd daw arnoch newyn. Gwae chwi sydd yn awr yn chwerthin, oherwydd cewch ofid a dagrau. Gwae chwi pan fydd pawb yn eich canmol, oherwydd felly'n union y gwnaeth eu hynafiaid i'r gau broffwydi.

"Ond wrthyh chwi sy'n gwrandeo rwy'n dweud: carwch eich gelynion, gwnewch ddaioni i'r rhai sy'n eich casáu, bendithiwch y rhai sy'n eich mellthio, gweddiwch dros y rhai sy'n eich camdrin. Pan fydd rhywun yn dy daro di ar dy foch, cynigia'r llall iddo hefyd; pan fydd un yn cymryd dy fantell, paid â'i rwystro rhag cymryd dy grys hefyd. Rho i bawb sy'n gofyn gennyt, ac os bydd rhywun yn cymryd dy eiddo, paid â gofyn amdano'n ôl. Fel y dymunwch i eraill wneud i chwi, gwnewch chwithau yr un fath iddynt hwy."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dduw, ffynhonnell pob sancteiddrwydd a rhoddwr pob peth da, boed i ni sydd wedi cyfranogi wrth y bwrdd hwn fel dieithriaid a phererinion yma ar y ddaear gael ein croesawu gyda'th holl saint i'r wledd nefol ar ddydd dyfodiad dy deyrnas; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN